
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 8 Chwefror 19, 2026 50c.

## Emyr Lyn Evans



Trist yw cyhoeddi fod y Parchg Emyr Lyn Evans wedi huno ar ôl bod yn gystuddiol yn ystod y misoedd olaf hyn. Roedd Emyr yn frodor o Bwlch-y-groes Ceredigion. Cafodd ei addysgu yn ysgol gynradd Coed-y-bryn ac ysgol ramadeg Llandysul. Codwyd ef i'r weinidogaeth yng nghapel Bwlch-y-groes o dan arweiniad y Parchg W. Rhys Nicholas. Treuliodd bedair blynedd yng Ngholeg Coffa Abertawe a'i ordeinio yn 1964 yn y Green, Fforddlas a Waungoleugoed, Sir Ddinbych gan symud yn 1966 i Gibeon, Ffynnonbedr a Rhydyceisiaid, Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ac ar ôl deng mlynedd cafodd alwad i weinidogaethu yn Ebeneser Abergwili, Pant-teg a Libanus Llanllawddog gan ychwanegu Siloam, Pontargothi a Horeb Felingwm yn ddiweddarach gan ymddeol yn 2018. Daliodd ati i ofalu am Ebeneser a Phant-teg gan gynnal ei oedfa olaf ar ddydd Nadolig. Cydymdeimlwn gyda Susan ei briod hawddgar, Iestyn y mab a'r ddau ŵyr. Coffa da amdano. Bydd teyrnged yn ymddangos yn *Y Tyst* yn fuan.

# Dathlu 300 mlynedd capel Heol Awst




Ar 5 Ebrill 1726 agorwyd capel newydd yn Heol Awst ar gyfer yr ychydig bobl a arferai gyfarfod mewn tŷ annedd i addoli. Dechreuodd yr eglwys ei bywyd mewn adeilad yn Heol y Prior a adnabuwyd fel tŷ cwrdd. Dyna'r rheswm y mae'r plac ar wal flaen y capel presennol yn galw'r lle yn 'meeting house'. Rhoddodd un o'r aelodau, John Corrie, dir i godi'r hen dŷ cwrdd hwn yn ogystal â darn bach o dir ar gyfer mynwent yn y cefn. Mae'n debyg bod yna lwybr yng nghanol yr hen dŷ cwrdd hwn, y pulpud yn y pen pellaf, a llofft gyferbyn â hwnnw. Dengys gweithredoedd y capel, dyddiedig 12 Mai 1725, bod yr aelodau eisoes yn cyfarfod yn Heol Awst cyn hyn.

### Cynnydd

Yn ystod cyfnod gweinidogaeth y Parchg David Peter (1792–1837) tyfodd yr eglwys i'r fath raddau fel y daeth y capel yn rhy fach, ac ym 1802 datgymalwyd yr adeilad, er mwyn adeiladu capel mwy o faint. Gosodwyd y garreg sylfaen ar 2 Mai 1802, a dechreuwyd addoli yn y tŷ cwrdd newydd hwn, 18 Gorffennaf yr un flwyddyn.

Ymhen rhyw ugain mlynedd roedd yr adeilad hwn, eto, wedi mynd yn rhy fach, felly ar 10 Hydref 1825 lluniwyd gweithredoedd newydd i brynu tŷ a gardd a oedd yn ffinio â'r tŷ cwrdd. Ar 26 Ebrill 1826 trefnwyd i godi'r capel presennol, ac ar 5 Ebrill 1827 fe'i agorwyd. Ystyriwyd y dydd hwn yn ddydd o ŵyl yn y dref, a chaewyd y siopau o barch i'r ganolfan ysbrydol newydd hwn. Mae'n debyg mai dyma gapel mwyaf yr Annibynwyr yng Nghymru yr amser hwnnw, a disgrifiodd un o'r gweinidogion diweddarach, Dyfnallt, y pulpud arbennig, uchel, yn 'witness box'. Yn y dyddiau cynharaf, roedd cryn dipyn yn uwch nag yr ydyw erbyn heddiw. Ychydig iawn o newidiadau eraill a wnaed i'r capel oddi ar y flwyddyn honno.



### Cyfarfodydd cyntaf yr Undeb

Roedd 1872 yn flwyddyn bwysig yn hanes y capel a'r eglwys. Dyma leoliad cyfarfodydd blynyddol cyntaf erioed Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Llywydd cyntaf yr Undeb oedd Gwilym Hiraethog, a oedd yn weinidog yn Lerpwl. Pan gaeodd y capel hwnnw ei ddrysau am y tro olaf, dymuniad yr aelodau oedd bod y gadair a ddefnyddiai yno yn dod i Heol Awst, a dyma'r gadair a ddefnyddia pob person a ddaw atom i'r festri i bregethu.

Ymhen hanner canrif dychwelodd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb i Heol Awst unwaith eto. Ar y noson gyntaf (29 Mai 1922) dadorchuddiwyd ffenestr goffa Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gaerfyrddin' a sefydlodd yr eglwys yn gynnar yn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg. Dyma'r unig gofeb sydd ar gael i'r gwron hwn. Yr wythnos gynt dadorchuddiwyd ffenestr goffa i'r bechgyn a gwympodd yn ystod y Rhyfel Mawr, ac yn ddiweddarach ychwanegwyd enwau'r bechgyn a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Dadorchuddiwyd ffenestr goffa Dyfnallt, a fu yn weinidog yr eglwys o 1910 i 1946, ar 10 Ebrill 1960, ac ym 1981 rhestrodd Cadw yr adeilad yn un Gradd 2 ac yn Safle Treftadaeth y Byd. Ceir hefyd nodweddion eraill sy'n werth eu gweld yn yr adeilad, er enghraifft dwy ffenestr liw, bach o ran ei maint, a allai fod wedi bod yno oddi ar 1826.

*parhad ar dudalen 2*

# Dathlu 300 mlynedd capel Heol Awst – parhad

Ond wrth gloi, cyfeiriaf yn unig at yr ychwanegiadau eraill, fel y system gwresogi, yr organ bib, yr ysgoldy, y festri fach, y toiledau, ac ystafell y gweinidog sydd, erbyn hyn, yn rhan o'r adeilad anferth hwn yn Heol Awst.

### Dathlu

Byddwn yn nodi 300 mlwyddiant y capel gyda chyngerdd ar nos Sul 22 Mawrth am 6 o'r gloch yng nghwmni'r unawdydd Fflur Wyn, Côr Ysgol Bro Myrddin, ac Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain. Llywydd y noson fydd Ifan Charles, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, ac un o blant yr eglwys. Croeso i bawb.

Er ein bod yn llawenhau wrth ddathlu 300 yr adeilad nodedig hwn, llawenydd mwy yw bod yr eglwys yn parhau i gwrdd yn ffyddlon oddi fewn i'r adeilad a bod yma gwmni clos a gweithgar. Rydym yn rhan o ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin o dan weinidogaeth y Parchg Beti-Wyn James. Diolchwn am yr hyn a fu ac edrychwn ymlaen yn hyderus at yr hyn a ddaw eto.

**Joan Thomas**


Eglwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

Cyngerdd Dathlu 300 Mlwyddiant Capel Heol Awst

DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026
AM 6.00 YR HWYR

Artistiaid:
Fflur Wyn (Soprano)
Côr Ysgol Bro Myrddin
Adran yr Urdd Ffynnonddrain

Cyfeilydd – Sioned Beynon
Organydd – Meirion Wynn Jones

Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys

Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James Gweinidog

Mynediad £10 wrth y drws
Plant ysgol am ddim

Croeso Cynnes i bawb

Elw'r noson i'w rannu rhwng:
Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnonddrain


# Y ffrwd fach



Mae digwyddiadau'r misoedd diwethaf wedi bod yn frawychus – rydyn ni wedi gweld gormeswyr rhyfelgar fel Netanyahu a Putin yn parhau i sathru ar y gwan a'r diamddiffyn, ac mae ymddygiad lluoedd ICE (nad ydynt yn ddim amgenach na llabystiaid â gynnau) yn unol â chyfarwyddyd Trump yn ddigon i beri arswyd.

Ffactor pwysig yn y datblygiadau hyn yw'r ffaith bod rhai yn ceisio troi'r gwahaniaethau rhwng pobl yn fygythiad, a gwelir hynny'n gynyddol wrth i sawl llywodraeth roi sylw afiach o negyddol i fewnfudwyr, a chreu awyrgylch digroeso, bygythiol, yn hytrach na gofalu am y rhai sydd mor aml mewn sefyllfa ddychrynllyd o fregus ar ôl gorfod ffoi o'u cartref.

> Byddwch yn deg bob amser, yn garedig a thrugarog at eich gilydd. Peidiwch cam-drin gwragedd gweddwon, plant amddifad, mewnfudwyr a phobl dlawd. A pheidiwch bwriadu drwg i unrhyw un arall. (Sechareia 7:9)

Mae'r Beibl yn dweud yn gwbl glir nad dyna sut dylen ni drin pobl eraill, ac mae dyletswydd ar bob un ohonom ni i godi llais yn gyson yn erbyn ymddygiad o'r math hwn. Yr elfen fwyaf brawychus yn hyn i gyd yw bod rhai yn ceisio defnyddio Cristnogaeth i gyfiawnhau eu hymddygiad – mae'r fath beth yn gwbl wrthun.

> Paid cam-drin mewnfudwyr sy'n byw yn eich plith chi.
> Dylet ti eu trin nhw a dy bobl dy hun yr un fath. Dylet ti eu caru nhw am mai pobl ydyn nhw fel ti. (Lefiticus 19: 33–34)

Mae'r Crist a welwn ni yn yr efengylau yn sefyll gyda'r gorthrymedig, hynny yw pobl fel y mewnfudwyr ym Minnesota sy'n ofni anfon eu plant i'r ysgol rhag iddyn nhw gael eu cipio gan ICE, a'r plant yn Gaza sydd wedi colli popeth. Safwn ninnau yn gadarn dros werthoedd cariad a gofal am eraill, gan gyhoeddi'n uchel ein bod i gyd yn blant i Dduw ac yn werthfawr yn ei olwg.

Efallai y bydd hynny'n ein gwneud yn hynod amhoblogaidd gyda rhai, ond cofiwn anogaeth Iesu, a dilynwn yn ôl ei draed:

> Dyma dw i'n ei orchymyn: Carwch eich gilydd. Os ydy'r byd yn eich casáu chi, cofiwch bob amser ei fod wedi fy nghasáu i gyntaf. (Ioan 15:17)

**Dr Fiona Gannon**
(Allan o Bwrlwm Capel y Nant, Clydach, Rhif 183, Chwefror 2026)

# Lansio *Rhwydwaith* – newyddlen ddigidol yr Undeb

Rydyn ni ar gyfnod newydd yn Nhŷ John Penri ac mae'r staff yn ymwybodol pa mor bwysig yw cadw mewn cysylltiad â'r eglwysi, y cyfundebau, gweinidogion, ac unigolion. Felly, mae newyddlen ddigidol *Rhwydwaith* yn cael ei lansio yn ystod mis Chwefror, 2026.

Caiff *Rhwydwaith* ei anfon at swyddogion pob eglwys sy'n aelod, pob cyfundeb, ac at aelodau personol yr Undeb gyda gwybodaeth am y diweddaraf o Dŷ John Penri a'r Undeb. Bydd y newyddlen yn cynnwys:

- gwybodaeth am ddyddiadau pwysig yng nghalendr yr Undeb, fel y Cyngor a'r cyfarfodydd blynyddol
- gwybodaeth am ymgyrchoedd, adnoddau, neu ddigwyddiadau eraill fel darlithoedd
- gwybodaeth am ofynion diogelu a materion elusen ac eiddo
- A llawer mwy ... popeth sy'n rhan o fywyd yr Undeb.



Gobeithiwn y bydd *Rhwydwaith* yn ffordd dda o gysylltu'n gyson a rhannu gwybodaeth gyda phawb.

Daw'r newyddlen at bawb drwy gyfrwng e-bost yn unig. Felly, os yw eich eglwys yn aelod o'r Undeb, er mwyn derbyn copi o *Rhwydwaith* bydd angen i chi sicrhau fod gennym ni eich cyfeiriad e-bost chi. Os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes, yna cysylltwch â Thŷ John Penri i roi gwybod beth yw'ch cyfeiriad e-bost: undeb@annibynwyr.cymru neu godi'r ffôn: (01792) 795888.

Bydd croeso i chi rannu'r newyddlen ag eraill, wedi'r cyfan, yr ydym ni gyd yn rhan o rwydwaith dirgel Duw.

Yr Adran
Gydenwadol

CHWEFROR 19 2026 RHIF 2609

## *Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder* gan Aled Eurig

Mae Dafydd Elis-Thomas yn un o'r ffigurau cenedlaethol hynny sydd, o edrych yn ôl, fel petai wastad wedi bod yna rywle yn y cefndir, mewn modd nid annhebyg i'r ffordd yr oedd rhai'n gweld y Frenhines! Wrth dyfu i fyny mewn cartref Plaid Cymru, rwy'n cofio'r teimlad rhyfedd hwnnw o bendro: gallu teimlo parch a chynhesrwydd tuag ato, hyd yn oed ymdeimlad ei fod yn ffigwr arbennig yn stori'r genedl, ac eto – bron ar yr un pryd – cael fy ngyrru'n wallgof ganddo.

Doeddwn i ddim yn ei adnabod yn bersonol, ond cefais ambell gyfle dros y blynyddoedd i gwrdd ag ef a chael sgwrs. Byddai'n creu argraff bob tro, yn hynod o ddeallus, ac yn drawiadol o eang ei ddiddordebau – yn cynnwys maes athroniaeth a diwinyddiaeth, a oedd, yn naturiol, o ddiddordeb arbennig i mi. Flynyddoedd cyn darllen y llyfr hwn, roeddwn i eisoes wedi dod i'w weld fel paradocs. Ac mae *Nation Builder* yn gosod y paradocs hwnnw ar bapur – cofnod du a gwyn i'r oesoedd.


Mae Aled Eurig wedi llwyddo i ysgrifennu cofiant sy'n wirioneddol ddarllenadwy. Does dim teimlad yma eich bod yn gorfod ymladd eich ffordd drwy fanylion diflas neu ddiangen. Mae'r hyn sy'n cael ei gynnwys yno am reswm: straeon sy'n datgelu cymeriad, manylion sy'n difyrru, a digwyddiadau bach sydd â phwysigrwydd cenedlaethol llawer mwy nag sy'n ymddangos ar yr olwg gyntaf.

Ar nodyn mwy personol, cefais sioc a boddhad wrth ganfod dau gyfeiriad at fy nhad yn y llyfr. Mae un yn dyfynnu llythyr a anfonodd at Dafydd El yn gynnar yn yr 1980au yn ei annog ef a threfnydd lleol Plaid Cymru, Elfed Roberts, i gymodi. Mae'r llall yn neidio ymlaen dros ddeugain mlynedd, i gyfnod pan oedd Dafydd yn Weinidog Diwylliant a 'Nhad yn Brif Weithredwr y Llyfrgell Genedlaethol. Mae Aled Eurig yn rhoi clod iddo fel un o'r ychydig rai a lwyddodd i gael ei ffordd gyda Dafydd ar fater polisi a chyllid – camp, o ystyried styfnigrwydd Dafydd.

Mae'r bennod agoriadol, sy'n trafod ei fagwraeth mewn capel anghydffurfiol yn y 1950au fel mab gweinidog, yn agoriad llygad. Fel gweinidog fy hun, mae'n anodd dychmygu pa mor wahanol oedd y byd hwnnw. Mae anghydffurfiaeth wedi colli'r statws cymdeithasol a diwylliannol oedd ganddi yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Ac eto, er ein bod yn llai o lawer heddiw, mae rhan ohonof yn meddwl ein bod yn iachach o'i herwydd.

Un peth a arhosodd gyda mi drwy'r llyfr yw'r syniad mai dim ond pan welir bywyd a gyrfa amrywiol Dafydd El fel ymateb i anghydffurfiaeth – a'r un pryd fel gwerthfawrogiad ohoni – y mae'r cyfan yn gwneud synnwyr. Paradocs, ie. Ond paradocs oedd Dafydd, o'r dechrau i'r diwedd. Dim ond syncretiaeth anghydffurfiaeth canol yr ugeinfed ganrif allai greu uchelwr oedd hefyd yn Farcsydd ac Ucheleglwyswr.

Mae'r llyfr yn cloi ar nodyn trist, gan gofnodi ei ffrae olaf â Phlaid Cymru a'i fethiant i ailymuno â'r blaid yn hwyr yn ei oes. Nid oedd yn barod i fynd drwy'r broses arferol o aildderbyn aelodau oedd, ar ryw adeg, wedi dwyn anfri ar y blaid. Ymddengys ei fod yn teimlo y




dylid ei groesawu'n ôl heb y drefn arferol – oherwydd, wel, Dafydd El oedd e. Dafydd i'r dim: hyderus, beiddgar, ac yn y pen draw yn wrth-gynhyrchiol braidd. O ganlyniad, mae'r stori'n colli'r bwa adferol yr oedd, mae'n debyg, yn chwilio amdano yn ei ymddeoliad.

Erbyn y diwedd, roedd y llyfr wedi fy atgoffa pam y gallai Dafydd fy nghythruddo mor aml. Ond roedd hefyd wedi fy atgoffa o rywbeth arall. Ein Dafydd ni oedd e. Ac er gwaethaf popeth, alla i ddim peidio â'i garu. Mae *Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder* yn gofiant cryf i gymeriad cryfach – un sy'n perthyn i'r Gymru wnaeth fy nghreu. Diolch.

*Rhys Llwyd*

*(Dafydd Elis-Thomas: Nation Builder, Aled Eirug; Gwasg Prifysgol Cymru, 2025; pris £25)*

## Y Grawys o Gaernarfon

BBC radio cymru

Caernarfon yw'r dref â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda dros 81% yn siarad yr iaith yn ôl Cyfrifiad 2021. Gellid dadlau felly fod edrych ar y byd drwy lygaid ei thrigolion yn rhoi golwg fwy Cymreig i ni nag yn unman arall. Tybed felly a yw benthyg sbectol y dref yn gymorth i ni ddeall a chymhwyso neges y Pasg i'n dyddiau ni ac i ni fel Cymry?

Dyna un cymhelliad i ni ofyn i weinidogion y dref ein tywys drwy oedfaon y Grawys ar BBC Radio Cymru eleni. Bydd y gweinidogion – Anna Jane Evans, Jenny Knott, Rhys Llwyd, Hannah Smethurst, Dylan Williams a Mererid Mair Williams – yn cydweithio ar wyth oedfa, un oedfa bob Sul ac oedfa Gwener y Groglith, i'n tywys ar daith y Grawys. Edrychwn ymlaen at wasanaethau fydd yn ein harwain i ddeall bywyd, gwaith, marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu'n well, ond gan wneud hynny a'n traed yn solet yn ein gwlad ein hunain ac yng nghanol ein diwylliant (neu ein diwylliannau) ein hunain.

Bydd yr oedfa'n cael ei darlledu am 12 o'r gloch bob Sul ar Radio Cymru, ar BBC Sounds neu ar eich seinydd clyfar. Felly, er mwyn gwneud yn sicr na fyddwch yn colli 'run o'r oedfaon, ewch i BBC Sounds a tharo'r blwch tanysgrifio. Wedyn, bydd pob oedfa ar gael i chi.

Tra byddwch chi ar BBC Sounds, cofiwch danysgrifio i *Bwrw Golwg* (Sul, 12.30 o'r gloch) hefyd a chael sgyrsiau difyr am gwestiynau moesol a chrefyddol y dydd, ar gael i wrando arnyn nhw pryd bynnag sy'n hwylus i chi. Mae *Bwrw Golwg* a'r *Oedfa* yn gynyrchiadau cwmni Tonnau ar gyfer BBC Radio Cymru.

## Y GRAWYS – WYTHNOS 1

# Presenoldeb a chyd-deithio wrth galon cymunedau




### Darlleniad

*Mathew 5:13–16*

### Myfyrdod

Pan fyddwn yn ystyried pa mor ddwfn yw'r rhaniad yn y ddadl gyhoeddus ar lawer o faterion cyfiawnder cymdeithasol a thystio i'r modd ysgytiol y gall canlyniadau'r gwrthdaro dinistriol hwn effeithio ar gymunedau lleol, gallwn deimlo'n ddi-rym i drawsnewid y realiti pryderus hwn. Hefyd, gall yr elyniaeth y gellir ei phrofi weithiau mewn ymateb i alwadau am undod, cynhwysiant, dealltwriaeth neu hyd yn oed ddim ond dadl barchus, fod yn frawychus ac yn llethol.

Mae ein darlleniad ar gyfer heddiw yn ein hatgoffa bod gennym rôl bwysig i'w chwarae drwy rannu'r gobaith a gawn yn ein ffydd a her yr egwyddorion moesegol sy'n deillio o'r ffydd honno. Mae eglwysi yn parhau i fod yn sefydliadau pwysig wrth galon cymunedau lleol, gan deithio ochr yn ochr â phobl yn llawenydd a gofidiau mwyaf eu bywydau. Mae'r presenoldeb hwnnw'n cynnig sylfaen ar gyfer perthynas o ymddiriedaeth. Yn ystod cyfnodau diweddar o wrthdaro, fel ym mhrofiad cymunedau lleol sydd wedi'u heffeithio gan derfysgoedd, rydym wedi gweld bod arweinwyr eglwysi, ochr yn ochr â chynrychiolwyr cymunedau ffydd eraill, yn parhau i gael eu hystyried fel pobl onest, hyd yn oed mewn cymdeithas gynyddol seciwlar. Mae hyn yn creu cyfle i'r Eglwys gyfrannu at adeiladu pontydd, gan helpu i gyrraedd y rhai sydd wedi cael eu dieithrio, eu hynysu, neu sy'n teimlo fel pe baen nhw'n cael eu gwthio i'r cyrion, gan greu cyfleoedd i gyfarfod a datblygu cyd-ddealltwriaeth. Gall gwaddol y presenoldeb hirsefydlog hwn a'r buddsoddiad mewn cymunedau fod yn rhodd i'r Eglwys ac i'r gymuned ehangach yn ystod amseroedd cythryblus. Ond ni ddylem fod yn naïf ynglŷn â'r ffyrdd y mae'r safle yma o arweinyddiaeth hefyd wedi gwneud yr Eglwys yn fan lle ceir o llawer o gystadleuaeth amdano yng nghyd-destun gwrthdaro sy'n seiliedig ar hunaniaeth. Mae hyn yn rhywbeth heriol i ymdrin ag ef wrth i ni geisio cyflwyno neges o groeso a pherthyn i bawb. Gall cydnabod yn ein deialog eciwmenaidd fod hon yn her a rennir gennym ein helpu i gyfleu tystiolaeth Gristnogol ddilys ar y cyd mewn maes cyhoeddus sy'n chwalu.

Mae ein darlleniad heddiw yn ein galw i fod yn hyderus wrth gofleidio'r cyfleoedd a roddir i ni i ddangos arweinyddiaeth, gan werthfawrogi'r adnoddau sy'n ein cefnogi yn y gwaith hwn. Ar yr un pryd, cawn ein galw i gydnabod yn ostyngedig ein bod yn rhan o gymunedau rhanedig, yn byw'r rhaniadau hyn ac yn cael ein galw i siarad yn onest o'r profiad hwnnw yn hytrach na phregethu o bell neu'n nawddoglyd.

Er bod ganddi gyfraniad pwysig i'w wneud i'r gwaith trawsnewid, nid yr Eglwys yn unig sydd â chyfrifoldeb am hyn, a gelwir arni i weithio mewn deialog a phartneriaeth ag eraill, gan werthfawrogi'r hyn y byddan nhw'n ei roi i brofiad y gymuned. Neges bwysig sy'n dod i'r amlwg wrth i ni wrando o fewn CTBI yw'r ffordd y mae'r ddadl sy'n mynnu polareiddio a rhannu – y down ar ei thraws yn aml yn y cyfryngau – yn cyferbynnu â phrofiad bugeiliol yr eglwys leol. Yno cawn ein hysbrydoli a'n hannog gan yr haelioni, y tosturi a'r gwytnwch a geir yn y gymuned o'n cwmpas. Mae helpu i gyfathrebu gwirionedd y profiad hwn yn her ac yn gyfle i'r Eglwys.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrdod a thrafodaeth**

- Beth sy'n rhoi gobaith ac anogaeth i chi am y cyfraniad gall yr Eglwys ei wneud i'r gwaith o adeiladu pontydd a goresgyn rhaniadau mewn cymdeithas?
- Beth ydych chi'n ei ystyried yw rhai o'r rhwystrau neu'r cyfyngiadau mwyaf arwyddocaol ar rôl yr Eglwys yn y gwaith hwn?
- Pwy yw rhai o'r partneriaid pwysicaf i'r Eglwys ar hyn o bryd yn y gwaith hwn?

### Gweithredu

- Ystyriwch y gwahanol ffyrdd y mae cymuned eich eglwys leol yn cyfathrebu â phobl – yn fewnol ac yn allanol. A oes unrhyw beth yn eich synnu wrth i chi adlewyrchu'r negeseuon a gyfleir ynglŷn â sut mae 'ein cymuned' yn cael ei diffinio o fewn eich eich cyd-destun?
- Rhestrwch y prif leoedd y mae pobl yn cwrdd ac yn ymgynnull yn y gymuned ehangach – pa mor bresennol yw'r Eglwys yn y gwahanol gyd-destunau hyn. Beth allai oblygiadau hyn fod ar gyfer rôl arweinyddiaeth yr Eglwys ochr yn ochr ag eraill?
- Adolygwch negeseuon diweddar gan eich Eglwys ac ystyried p'un a oes yna unrhyw gyfleoedd y gellid eu datblygu i helpu i rannu'r straeon o gefnogaeth, estyn allan a gofal sy'n dangos tosturi a gwytnwch y gymuned leol.

### Gweddi

Arglwydd,
Diolchwn am y cyfleoedd a roddir i'r Eglwys i ddangos arweinyddiaeth mewn amseroedd cythryblus,
ac am yr adnoddau y gallwn eu rhoi i gymunedau mewn trafferth.
Bendithiwch y rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn ein heglwysi,
ac sy'n cadw'r cysylltiadau hyn yn fyw
ac yn tystio i rodd dy gariad sy'n iacháu.
Rydym yn ddiolchgar am yr ysbrydoliaeth a welwn
wrth gyd-deithio yn ein cymunedau
sy'n ceisio ymateb gyda haelioni a chefnogaeth
i'r rhai sydd mewn angen.
Boed i'r enghreifftiau hyn fod yn oleuni i fyd sy'n brwydro yn erbyn tywyllwch rhaniadau.
Amen.

# Rôl plant ym mywyd yr eglwys – rhan 2

Yn rhifyn 258 o *Cenn@d* (4 Chwefror) cyhoeddwyd erthygl oedd yn cynnwys Siarter ar gyfer gwaith plant yn yr eglwys. Os ydych fel eglwys/gofalaeth yn awyddus i drafod yn ehangach le a rôl gwaith plant ac ieuenctid ym mywyd eich eglwys, beth am ddefnyddio adnoddau CAMU? Mae'r adnoddau hyn, sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, yn cynnwys:

- saith astudiaeth Feiblaidd ar hanes y proffwyd Nehemeia
- saith ffilm yn cael eu cyflwyno gan y Parch. Rhys Llwyd Caernarfon
- holiaduron i'w rhannu ymhlith aelodau'r eglwys leol a'r gymuned ehangach
- pecyn o syniadau ymarferol o weithgareddau y gellir eu trefnu yn lleol.

Datblygwyd yr adnoddau yn wreiddiol gan Wasanaeth Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac maent bellach wedi eu haddasu i fod yn berthnasol i bob enwad a thraddodiad Cristnogol.

Pwrpas cynllun CAMU yw helpu eglwysi i ddod yn eglwysi sy'n gwneud y canlynol:

**CYHOEDDI** Duw ac Iesu ac yn gwasanaethu'r gymuned leol gyda chynhesrwydd a chroeso, gan adlewyrchu Iesu a llawenydd yr Efengyl.

**ADDYSGU** pobl am Iesu, gan ddarparu patrymau addoli sy'n cynnig profiadau ysbrydol i bobl o bob oed a gweithgareddau sy'n helpu pobl i ddyfnhau eu perthynas â Duw yn Iesu.

**MEITHRIN** y naill a'r llall wrth eu hannog i fentro mewn cyfeiriadau newydd: annog ein haelodau i fod yn rhan o'r gwaith, ac annog teuluoedd i fod yn rhan o'r eglwys leol.

**UNO** pobl o bob oedran o fewn yr eglwys mewn gwaith ac addoliad, gan ffurfio partneriaethau i hyrwyddo teyrnas Dduw yn y gymuned.

Wrth wraidd bywyd yr eglwys leol y mae'r gymuned—ac yn ganolog i'r gymuned honno y mae plant. Nid 'dyfodol yr eglwys' yn unig yw plant; maent yn rhan fyw a gweithredol o'r eglwys heddiw. Trwy eu presenoldeb, eu cwestiynau gonest a'u llawenydd naturiol, maent yn herio ac yn cyfoethogi ffydd y gynulleidfa gyfan. Yn y traddodiad Cristnogol, mae plant yn rhodd gan Dduw.

Mae'r Beibl yn ein hatgoffa o'u gwerth a'u lle canolog yng nghalon Iesu ei hun. Pan fydd yr eglwys leol yn rhoi lle amlwg i blant, mae'n adlewyrchu'r alwad honno i'w croesawu, eu meithrin, a'u hamddiffyn. Nid tasg eilradd mohoni, ond cyfrifoldeb sanctaidd sy'n galw am ymrwymiad, gofal a dyfalbarhad. Mae rhoi blaenoriaeth i blant yn fuddsoddiad yn y dyfodol, ond hefyd yn weithred ffydd yn y presennol. Mae eglwys sy'n meithrin plant yn eglwys sy'n tyfu mewn cariad, tosturi a gobaith. Trwy greu awyrgylch diogel, croesawgar a llawn bwrlwm, gall yr eglwys leol sicrhau bod plant nid yn unig yn teimlo'u bod yn perthyn, ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u galw i fywyd o ffydd a gwasanaeth.

Yn y pen draw, pan fyddwn yn rhoi plant yng nghanol bywyd yr eglwys, rydym yn dilyn esiampl Crist ei hun – ac yn caniatáu i'r eglwys adlewyrchu'n llawnach deyrnas Dduw, lle mae pawb, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn cael lle wrth y bwrdd.

Gellir lawrlwytho holl adnoddau CAMU o'r wefan: https://ysgolsul.com/?page_id=10865

*Aled Davies*

## Capel Siloh, Chwilog

Rydym yn eglwys sy'n ceisio bod yn gynhwysol a chroesawgar, gan gyfarfod i addoli a hefyd i wasanaethu pobl o bob oed er lles ein cymuned.

**Rydym yn chwilio am**

## Swyddog Cenhadol a Chymunedol

i weithio gyda thîm o wirfoddolwyr i ddatblygu gweithgarwch yr eglwys o fewn y gymuned, ac i gefnogi'r addoli a dysgu o fewn yr eglwys. Mae gwaith gyda'r ifanc, chwiorydd a dysgwyr yn allweddol i'r swydd, gan arwain sesiynau Beiblaidd ac addoliad ar gyfer pob oed.

Mae angen bod yn hyblyg o ran oriau, gan y bydd gweithgareddau fin nos a dros y Sul yn rhan o'r arlwy.

**Cyflog:** I'w drafod. Ariennir y swydd ar y cyd rhwng capel Siloh a chynllun 'Cefnogi Cyfle' o dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

**Oriau:** Unedau gwaith sy'n gyfystyr a 15 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** Cyfnod penodedig o dair blynedd.

**Lleoliad:** Gall deilydd y swydd weithio'n hyblyg, ond bydd cyfran helaeth o'r gwaith o fewn pentref Chwilog, gyda rhan fwyaf o'r gweithgaredd yn y capel.

**Dyddiad Cau:** 28 Chwefror 2026

Am fwy o wybodaeth neu i wneud cais, cysylltwch trwy yrru neges gychwynnol at: silohchwilog@gmail.com

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

**Sul, 22 Chwefror, am 7:30yh – Yr Eglwys Fodern**

Cerdded ffordd ganol rhwng 'symud efo'r oes' a chadw'n driw i draddodiad – dyna'r her i'r eglwys fodern. Wrth i'r Eglwys yng Nghymru drafod dyfodol seremonïau ar gyfer cyplau o'r un rhyw, Lisa Gwilym sy'n cael cwmni rhai sydd ar flaen y gad wrth geisio ffordd ymlaen – y darpar offeiriad Glyn Wise, Deon newydd Cadeirlan Bangor, y Parchedicaf Manon Ceridwen James, a'r Parchedig Sara Roberts, aelod blaenllaw o Gaplaniaeth LHDTC+ Esgobaeth Bangor. A chawn berfformiad gan Gôr Ieuenctid Môn.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 22 Chwefror, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rob Nicholls

***Oedfa Radio Cymru***

**Sul, 22 Chwefror, am 12:00yp**

**Y Grawys o Gaernarfon**

Oedfa dan arweiniad Anna Jane Evans



(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Gweddïo dros Gymru

Dyma ni, ar ddechrau mis Chwefror. Ac mae hynny'n golygu un peth i ni yma yn 100 i Gymru – mae Diwrnod dros Gymru bron yma a hynny ar 28 Chwefror! Diolch yn fawr iawn i'r cannoedd sydd eisoes wedi prynu eu tocynnau, rydym yn edrych ymlaen yn fawr i'ch gweld chi i gyd yn Llanelwedd ac i glywed beth sydd gan Dduw ar ein cyfer. Gweddïwch y byddwn yn cael ein herio, ein hysbrydoli a'n hannog. Mae rhywbeth i bawb – gan gynnwys gwaith plant ac ieuenctid. Mwy o wybodaeth isod. Dyma rai manylion all eich helpu i gynllunio eich diwrnod.






**Amserlen fras**

9:00 – Drysau yn agor

10:00 – Sesiwn 1 gyda neges gan Andy Ollerton

12:00 – Cinio

13:00 – Sesiwn 2 gyda neges gan Steffan Morris

14:00 – Egwyl

15:00 - Sesiwn 3 gyda neges gan Becky Davies

Ein bwriad yw gorffen erbyn 17:00

Yn ystod yr holl brif sesiynau byddwn hefyd yn clywed mwy am waith 100 i Gymru, yn clywed gan blanwyr eglwysi, cyfweliadau ac awgrymiadau am lyfrau, ac wrth gwrs addoliad, gweddi ac amser i fyfyrio. Gweddïwn y byddwch yn cael eich ysbrydoli, eich calonogi a'ch bendithio gan ein hamser gyda'n gilydd.

### Prif siaradwyr

Mae **Dr Andy Ollerton** yn ddiwinydd, bugail, awdur a chyflwynydd, un sy'n cyfleu syniadau cymhleth mewn ffordd syml a pherthnasol. Mae Andrew yn byw yng Nghymru ac yn siarad yn rheolaidd mewn cynadleddau, gwyliau Cristnogol ac eglwysi. Yn ddiweddar mae Andrew wedi datblygu fersiwn newydd o 'Cwrs y Beibl' (The Bible Course) gyda Chymdeithas y Beibl, a hefyd wedi cyhoeddi cyfrol newydd sef *God's Book: An Honest Look at the Bible's 7 Toughest Topics*.

Mae **Steff Morris** yn arwain Ffynnon, eglwys newydd Gymraeg yn Llandysul. Mae hefyd yn arwain rhaglen Derwen, ac yn cynorthwyo i gydlynu Gŵyl Llanw. Mae Steff yn un o dîm arwain 100 i Gymru, ac yn angerddol dros gyflwyno Iesu Grist i bobl Cymru.

Mae **Becky Davies** yn wreiddiol o'r Rhondda ac yn gwasanaethu fel gweithwraig gymunedol yn eglwys Hope Rhondda yn Nhrebanog. Hi hefyd sy'n arwain 'Cariad', cymuned o ferched o bob rhan o Gymru sy'n cyfarfod ar lein er mwyn ceisio gwireddu geiriau Hebreaid 10:24 sef, 'Gadewch inni ystyried sut y gallwn ennyn yn ein gilydd gariad a gweithredoedd da,' a hynny trwy ddefosiwn dyddiol, gweddi a chyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae'n angerddol dros astudio'r Beibl a rhannu'r newyddion da am Iesu.

### Plant ac ieuenctid

Mae gennym waith plant yn ystod sesiynau'r bore a'r prynhawn. Bydd y rhain yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gennym waith ieuenctid yn rhedeg yn ystod rhai sesiynau, a gallant ymuno â ni yn y prif gyfarfodydd pan nad yw hynny'n digwydd.

Dewch draw i ymuno gyda ni.

**Tîm trefnu 100 i Gymru**



## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
**Cyfarfodydd Blynyddol 2026**

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg
Gwesty'r Towers, Abertawe
24–26 Mehefin, 2026

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w cyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 8 Mai fan bellaf. Bydd angen llofnod cynigydd ac eilydd ar bob penderfyniad.



## Barn Annibynnol

# Dydd Mawrth Ynyd – mwy na chrempog?

Roedd 17 Chwefror eleni yn ddydd Mawrth Ynyd – dydd Mawrth crempog, pancws, pancos, cramwy th neu ffroes – dewiswch chi! Daw'r gair 'Ynyd' o'r Lladin *initium*, sef 'dechreuad' – a thrannoeth yr Ynyd yn gychwyn cyfnod y Grawys o hunanymwadiad neu 'wneud heb'.

Yng Nghymru byddai gwneud crempog yn fodd nid yn unig o greu bwyd blasus, ond hefyd o ddefnyddio cynhwysion a fyddai wedi mynd yn ofer erbyn diwedd y Grawys. Mewn rhai diwylliannau byddai dydd yr Ynyd yn gyfle i fwyta'n fras a chynnal chwaraeon a charnifal cyn i lymder ymataliol y Grawys gyrraedd. Dyma'r *Mardi Gras* – dydd Mawrth glwth neu dew.

Bydd rhai Cristnogion yn canolbwyntio ar gyffes Ynyd cyn rhoi sylw llwyr i 'aberth' y Grawys. Mae'n gyfnod o holi ein hunan ac ystyried o ddifrif ein gwendidau fel dilynwyr Crist. Gweld beth sydd angen i ni edifarhau amdanynt, pa ffaeleddau yn ein bywydau mae angen i ni eu cywiro a pha newidiadau yn ein ffordd o fyw y mae angen gofyn i Dduw am gymorth i'w gwella. Allwedd y twf ysbrydol hwn yw edifeirwch. Daw'r 'Shrove Tuesday' Saesneg o'r gair 'shrive', sef 'dileu camweddau' (*absolution*) neu lanhau'r enaid cyn penyd y Grawys.

Felly mae'r Ynyd yn dipyn mwy na chyfle am grempog – mae'n gyfle i ystyried ein cyflwr gan baratoi a deisyf am adfywiad ysbrydol.



### Dydd Mercher Lludw

Ar ddydd Mercher y Lludw bydd aelodau rhai eglwysi uniongred yn arddangos croes o ludw ar eu talcennau i arwyddo mai 'o'r llwch y daethost, ac i'r llwch y dychweli.' Daw'r



llwch yn aml o ddail palmwydd wedi'u llosgi, dail a gadwyd o Sul y Blodau a'r lludw yn symbol o farwolaeth ac edifeirwch, ac yn ein hatgoffa i fyw ein bywydau yn ôl dysgeidiaeth Iesu. Mae dydd Mercher y Lludw yn dynodi dechrau cyfnod penodol o ganolbwyntio ar edifeirwch, cyffes a gweddi a pharatoi ar gyfer 40 diwrnod y Grawys. Mewn cyferbyniad, mae'r Pasg, sy'n dilyn y Grawys, yn gyfnod o lawenydd a dathlu.

Rhaid cyfaddef yma nawr (yn dawel fach) nad oedd dydd Mawrth Ynyd, dydd Mercher y Lludw na hyd yn oed y Grawys yn nodweddion amlwg yn fy magwraeth anghydffurfiol Gymraeg ym mhumdegau a chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Roedd rhyw led ymwybyddiaeth fod eglwyswyr Anglicanaidd yn cydnabod y Grawys, ond prin y cyffyrddai hynny â ni blant Annibynnol gwledig y cyfnod. Ein colled ni oedd hynny mae'n siŵr, gan fod colli cyfle i edrych ar ein cyflwr ac edifarhau a gofyn am nerth yr ysbryd i'n cryfhau, yn golled wirioneddol.

### Ymatal rhag

Beth allwn ni 'wneud heb' yn ein bywydau? Yn draddodiadol mae'r Grawys yn gyfnod o hunanymwadu drwy ymatal rhag 'pethau da' bywyd – siocled, melysion, bwydydd bras, cig, caffîn, sigaréts, 'amser sgrin' ar y cyfryngu cymdeithasol neu hoffterau eraill – a hynny er mwyn adlewyrchu profiad yr Iesu yn yr anialwch. Yn hytrach nag ymatal rhag 'pethau da' am 40 diwrnod, efallai mai rhesymeg ein tadau anghydffurfiol oedd ymatal a rhoi sylw i weddi a chyffes drwy'r flwyddyn gron.

### Gras achubol

Does dim sôn fod yr Iesu wedi argymell rhoi sylw i ddiwrnodau 'arbennig' yn y calendr, ar wahân i'r Sabath Iddewig. Fe'n galwodd i gyffes ac edifeirwch: 'yna bydd e'n ein glanhau oddi wrth bopeth drwg am ei fod yn cadw ei air,' (1 Ioan 1:9) a hynny er mwyn i ni gydgerdded yn agosach gyda Duw. Deuwn o flaen Duw mewn gostyngeiddrwydd gan ymddiried yn ei gariad a'i allu i'n glanhau. Mae edifeirwch yn gymaint mwy na dweud 'sori' – mae'n golygu troi a throedio llwybr newydd.

Mae'r Iesu'n ein caru ac am ein tynnu'n agos. Mae cariad Duw yn ein cyrraedd er ein holl fethiannau. Dyna ogoniant yr Efengyl: ein hangen mawr ni ar un llaw – a gras achubol Duw ar y llall. Mae her a chysur yng ngeiriau Paul: 'Does neb wedi gallu cyrraedd safon berffaith Duw ar eu pennau eu hunain. Duw sy'n gwneud y berthynas yn iawn.' (Rhufeiniaid 3: 23). Diolch am wirionedd sydd yn ein darostwng a'n dyrchafu ar yr un pryd!

**Eurig Davies**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)


# BUGEILIO'N GILYDD

**'Gofalwch amdanoch eich hunain ac am yr holl braidd'** (Actau 20:28)

Ydych chi'n angerddol dros estyn gofal a chariad?
Ydych chi'n teimlo galwad i estyn gofal bugeiliol?
Ydych chi awydd dysgu mwy am fugeilio'n gilydd?

**Dyma wahoddiad i chi ddilyn y modiwl 'Bugeilio'n Gilydd'.**

Nos Lun, Chwefror 2, 9, 23, Mawrth 2, 9, 16, 23 a 30
7:00 – 8:30 o'r gloch ar Zoom,
dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall.

Am fwy o wybodaeth, neu i gofrestru: carwyn@annibynwyr.cymru

**Croeso cynnes i bawb**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk


*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

***Dalier Sylw!***
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Aelodau newydd Bethania

Pleser pur i'r gynulleidfa yn eglwys annibynnol Bethania, Tymbl Uchaf ger Llanelli, oedd derbyn dau aelod newydd i'w plith yn ystod y gwasanaeth cymun ar fore Sul, 7 Rhagfyr. Cafodd Ben Jones a Rhiannon Jones eu croesawu fel cyflawn aelodau ym Methania gan y gweinidog, y Parchg Heini Jones.






## Adolygiad: *Trwy'r Anialwch*. Pererindod, dioddefaint a gobaith gan Trystan Owain Hughes




Profiad hyfryd dros ben oedd bod yn bresennol yn lansiad pleserus a chyffrous y gyfrol ddiweddaraf hon o gynnyrch Trystan yn Eglwys Crist, (nepell o'r llyn ym Mharc y Rhath yng Nghaerdydd) ar gychwyn mis Tachwedd, 2025.

Bu Trystan yn ficer yn Eglwys Crist am dros ddeng mlynedd cyn iddo gael ei benodi i swydd newydd fel Cyfarwyddwr Datblygu Gweinidogaeth i'r Eglwys yng Nghymru. Roedd presenoldeb ugeiniau o gyfeillion a chydnabod Trystan yn dystiolaeth glir o'r mynegiant o barch a'r edmygedd o bersonoliaeth hawddgar a chynnes Trystan yn ogystal â'r gydnabyddiaeth o'i ymroddiad a'i ddawn fel awdur nifer o lyfrau.

### Gwerthfawrogiad

Cawn ragflas o gynnwys y gyfrol trwy ddarllen gwerthfawrogiad rhai oedd eisoes wedi cael cyfle i bori yn y gyfrol cyn y lansiad swyddogol. Dyma a ddywedwyd ganddynt:-

'Ceir yma atgofion o ddwy bererindod wedi eu hysgrifennu'n hyfryd a chofiadwy. Mae onestrwydd dirdynnol Trystan yn ein hannog i ddarganfod gobaith yng nghanol adfyd. Gallwn agor ein hunain i oleuni a chariad Duw i drawsnewid ein teithiau ninnau.'

'Nid dim ond hanes taith sydd yma, ond hanes bywyd. Mae llyfr Trystan yn ingol, yn heriol ac yn arteithiol o onest. Mae'n ein hatgoffa y gall gobaith ragori ar yr anobaith dyfnaf.'

'Trwy blethu ynghyd ei brofiad o gerdded llwybr pererin hynafol yng ngogledd Cymru a'i brofiad o anaf difrifol, mae Trystan yn y llyfr gafaelgar hwn yn disgrifio sut y gallwn ddysgu gweld Duw ar waith yn ein bywydau, hyd yn oed ar yr adegau tywyllaf. Trwy ysgrifennu'n fywiog a myfyrio'n onest, gan gynnwys cyfeiriadau yma ac acw at farddoniaeth a nofelau yn ogystal â'r ysgrythur, mae'n ein cymell i fyfyrio ar ein teithiau a'n pererindodau ein hunain; yn weledig ac anweledig. Cynhwysir cwestiynau ar gyfer myfyrdod ar ddiwedd pob pennod, ac mae hwn yn llyfr rhyfeddol a fydd yn cyfoethogi unigolion a grwpiau astudio.'

### Anaf difrifol

Yn dilyn pererindod lafurus 140 milltir yn cerdded ar draws tir garw gogledd Cymru, mae Trystan yn wynebu pererindod arall hollol wahanol wrth iddo wella o anaf difrifol a ddioddefodd ar y daith. Meddai Trystan, 'Y llyfr hwn yw un o fy ngweithiau mwya' personol.' Mae *Trwy'r Anialwch* yn cael ei gymeradwyo gan Archesgob Cymru fel y gyfrol i'w ddarllen a'i astudio dros gyfnod Y Garawys eleni.

Dwi'n hyderus y gall ail ran y gyfrol yn arbennig, fod yn ysgogiad, yn galondid ac yn ysbrydoliaeth i unrhyw un ohonom sy'n cael ein blino a'n llethu gan gyfnodau o ddigalondid ac iselder yn ystod cyfnodau heriol a all fod yn greulon o ddidrugaredd. 'A thangnefedd Duw, yr hwn sydd uwchlaw pob deall, a geidw eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu' ar ein pererindod ninnau yn ein paratoadau ar gyfer Gŵyl y Pasg eleni.

**Gwilym Wyn Roberts**

(*To Hell's Mouth and Back* yw teitl y gyfrol yn y Saesneg)

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*